YSGOL GYMRAEG SANT CURIG

2022-2023

# Cylchlythyr yr Haf

# Summer Newsletter



# Neges wrth y Pennaeth
# Message from the Headteacher



Ar ddiwedd blwyddyn brysur ond llwyddiannus arall, hoffwn unwaith eto, bachu ar y cyfle i ddiolch i holl staff, plant, rhieni, gofalwyr, a llywodraethwyr Sant Curig am eu holl waith caled yn ystod tymor yr haf. Mae'r tymor hwn wedi bod yn un mor gadarnhaol o ran cynnydd disgyblion, eu lles a chael y cyfle i groesawu rhieni a gofalwyr yn ôl i'r ysgol yn rheolaidd, i fwynhau profiadau amrywiol, ochr yn ochr â'u plant.

Mae disgyblion Sant Curig unwaith eto wedi gweithio'n hynod o galed ym mhob dosbarth yn ystod y tymor hwn ac wedi gweithio'n ddiflino i siarad Cymraeg o fewn ac o gwmpas yr ysgol. Fel y gwelwch unwaith eto o'n Cylchlythyr, roedd cymaint o themâu cyffrous a digwyddiadau diddorol ar draws yr ysgol - diolch i'r staff am drefnu'r digwyddiadau hyn ac i'r holl wahanol bobl a ddaeth i'r ysgol i gyfoethogi'r profiadau a gafodd ein plant. Diolch i chi hefyd, ein rhieni a gofalwyr, am gefnogi'r gweithgareddau yma gyda'ch presenoldeb cyson. Edrychwch yn ofalus ar y lluniau a'r holl wynebau hapus sydd ynddynt!

Rydyn ni'n ffarwelio â rhai o'n haelodau staff ac yn croesawu rhai newydd i #TeuluCurig. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i Mrs. Parry a Mrs. Jenkins am eu blynyddoedd o wasanaeth yn cefnogi cannoedd o blant ar hyd y blynyddoedd. Mwynhewch eich ymddeoliad! Hefyd, pob lwc i Mrs. Weighell a Miss Owen wrth iddynt symud ymlaen i ysgolion newydd, cyfrifoldebau newydd. Dyma Sant Curig unwaith eto yn dangos ei gallu i ddatblygu staff yn broffesiynol. Bydd Mrs. Warner hefyd yn ein gadael y tymor hwn er ein bod yn gobeithio ei chroesawu yn ôl yn gyson ar gyfer sesiynau canu wythnosol yn yr ysgol. Diolch i chi gyd am eich ymroddiad.

Yn olaf, gobeithiwn y cewch chi, ein teuluoedd cefnogol, wyliau haf bendigedig ac edrychwn ymlaen at eich croesawu yn ôl ar ddydd Mawrth y 5ed o Fedi yn ffres ac yn barod am dymor newydd gydag athro newydd! Mae'r staff unwaith eto wedi bod yn cynllunio gweithgareddau cyffrous ar gyfer y tymor sydd i ddod ac yn gobeithio y byddwch yn gallu rhannu yn y gweithgareddau hyn gyda ni yn yr ysgol.

Mwynhewch haf hyfryd, diogel, holl #TeuluCurig!

*At the end of another busy but successful year, I would once again, like to take this opportunity to thank all the staff, children, parents, guardians, and governors of Sant Curig for all their hard work during the summer term. This term has been such a positive one in terms of pupil progress, their wellbeing and having the opportunity to welcome parents and guardians back into school, to enjoy experiences alongside their children.*

*The pupils of Sant Curig have once again worked incredibly hard in every class during this term and have worked tirelessly to speak Welsh in and around the school. As you will once again see from our Newsletter, there were so many exciting themes and interesting events right across the school - thank you to staff for arranging these events and to all the different people who came into school to enrich the experiences that our children received and to our parents and guardians for their unwavering support with these activities. Just look carefully at the photos and all the happy faces in them!*

*We say goodbye to some of our staff members and welcome new ones into the #CurigFamily. I'd like to take this opportunity to thank Mrs Parry and Mrs Jenkins for their years of service, supporting hundreds of children over the years. Enjoy your retirement! Also, good luck to Mrs Weighell and Miss Owen as they move on to new schools, new responsibilities as Sant Curig once again demonstrates its ability to professionally develop staff. Mrs Warner will also be leaving us this term although we're hoping to welcome her back regularly for weekly singing sessions in school. Thank you all for everything you have done for the children of Sant Curig.*

*Finally, we hope you, our supportive families, have a wonderful summer break and we look forward to welcoming you back on Tuesday the 5th of September fresh and ready for a new term with a new teacher! The staff have once again been planning exciting activities for the coming term and hope that we will be able share in these activities with us in school.*

*Have a lovely, safe summer to all our #CurigFamily!*

# Dosbarth Derbyn



Dyma ni ar ddiwedd ein tymor olaf yn y Dosbarth Derbyn. Mae hi wedi bod yn dymor prysur ac rydym wedi cael llawer o hwyl yn mwynhau'r tywydd braf. Rydym wedi bod yn mwynhau ein ymarferion ar gyfer mabolgampau'r ysgol. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi ni ar y diwrnod. Roedd pawb wedi cystadlu yn wych!

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio'n galed yn darllen straeon am y môr ac yn dysgu ffeithiau am y môr a'i chreaduriaid. Cawsom hwyl yn dysgu stori 'Sanau Newydd Sali' ar ffurf Pie Corbett a'i pherfformio yn Eisteddfod yr ysgol. Roedd y plant yn wych ar lwyfan yr Eisteddfod yn canu, dawnsio a llefaru yn hyderus! Fe ddaeth cyflwynwyr rhaglen Cyw i'r ysgol i ddawnsio a chanu gyda ni hefyd! Am hwyl a sbri! Cawsom barti o dan y môr hefyd ac roedd y gwisgoedd yn arbennig. Diolch!

Roedd pawb wedi mwynhau ymweliad Sparklab i'r ysgol ac fe cawsom y cyfle i wneud llawer o arbofion yn ymwneud â dŵr a'r môr. Yn ogystal â hyn rydym wedi dysgu sut i edrych ar ôl y môr a'i chreaduriaid. Daeth yr RNLI i weld ni ac i drafod sut i gadw'n ddiogel ar lan y môr.



Yn yr un modd cafodd pawb hwyl a sbri wrth gyd-weithio gyda'n rhieni a'n gwrchodwyr i wneud prosiect Celf hyfryd ar gyfer creu arddangosfa yn y Dosbarth Derbyn. Roedd pawb yn greadigol iawn ac mae'r gwaith Celf yn werth eu gweld. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi.

Mae'r plant yn gyffrous iawn i symud i flwyddyn 1 ym mis Medi a dymunwn pob lwc iddynt. Gobeithio y cewch wyliau haf hyfryd ac rydym eisiau diolch i chi am fod yn gefnogol yn ystod y flwyddyn.

*Well, here we are at the end of our final term in the Reception class. It has been a very busy term and we have enjoyed working and having fun in our outdoor area due to the sunny weather that we have had during the term. The children had lots of fun practicing for our school sports day and everyone competed well on the day. Thank you to everyone who came to support us in our school sports day.*

*We have also been reading lots of different stories and learning facts about the sea and its creatures. We had fun learning the story 'Sanau Newydd Sali' and we performed the story on the stage at the school Eisteddfod. The children also sang and danced on the stage for the Eisteddfod, everyone had lots of fun. We were very lucky that the 'Cyw' presenters also came into school to see us and we enjoyed dancing and singing with them. We also had an under the sea party in class, the costumes were amazing! Thank you!*

*As part of our theme, we invited Sparklab to school. We took part in lots of different science experiments about the sea and water, and we also learned how to look after the sea and the creatures that live in the sea. The RNLI also came to school to speak to us about the importance of staying safe in the water and at the beach.*

*It was wonderful to see all the parents and friends that came to help us with our art project. The display is fantastic and the children were so proud of their work. Thank you for the support!*

*The children are very excited about moving up to year 1 in September, we will miss them but wish them good luck in Year 1. We hope you have a lovely summer and thank you for all your continued support throughout the year.*








# Blwyddyn 3



Yn nhymor 3 rydym wedi mwynhau ein paratoadau wrth ini ymgymryd a prosiect cyffroes gyda nifer o ysgolion eraill ac y Gwasanaeth Cerddorol Caerdydd a'r Fro. Roedd hwn yn gyfle gwych iddynt flasu elfenau creadigol drwy Maes Celfyddydau Mynegianol. Ar ôl rhaglen 10 wythnos o ymarferion a dysgu geiriau caneuon poblogaidd roeddem yn falch iawn o'i perfformiad diweddar ar lwyfan y Neuadd Goffa.

Rhaid hefyd diolch i'r plant am eu hymdrechion wrth ymarfer a chyflwyno ein Gwasanaeth Blwyddyn eleni. Llawer o hwyl yn edrych nol ar yr holl weithgareddau a chyfleon yn ystod y flwyddyn.

Dymunwn wyliau haf hapus i bawb a gobeithio fod pawb yn edrych ymlaen at ddechrau ym mlwyddyn 4 yn mis Medi.










*Term 3 allowed us to enjoy our preparations as we were invited to join in an exciting project with other schools with the support of Cardiff and Vale Music Service. This was a great opportunity to explore our creative aspects within the Performing Arts Area of Learning. The 10-week project involving learning songs and playing the Pbuzz ended with a performance at Barry Memorial Hall.*

*We would also like to thank the children for their efforts in practicing and presenting our recent Year Assembly. It was great to look back at the activities over this year.*

*We wish all the families a happy summer holiday and everyone is looking forward to starting year 4 in September.*

# Hwyl Fawr a Phob Lwc!



Hoffem ddymuno ymddeoliad hapus iawn i **Mrs Liz Parry a Mrs Sian Jenkins** sy'n ffarwelio â'r ysgol eleni ar ôl dros 14 mlynedd!! Bydd hiraeth mawr ar eu hôl!

Byddwn hefyd yn ffarwelio â Mrs Weighell a Miss Owen ar ddiwedd y tymor ac fel ysgol rydym yn diolch yn fawr iawn iddyn nhw am eu holl waith caled ar hyd y blynyddoedd.

Mae cannoedd o blant wedi elwa o'u chymorth a'u chefnogaeth a dymunwn yn dda wrth iddyn nhw ddechrau cyfnodau newydd yn eu bywydau. Diolch yn fawr iawn!

Hoffem hefyd ddiolch i **Mrs Rebecca Warner** am ei hamser gyda ni yn Sant Curig!

…………………………………………………………….

*We'd like to wish a very happy retirement to **Mrs Liz Parry & Mrs Sian Jenkins,** who'll both be saying farewell to the school after over 14 years!! They'll be greatly missed after all these years!*

*We shall also be saying goodbye to both **Mrs Weighell & Miss Owen** at the end of this term and we would like to wish them well as they both start new chapters in their lives.*

*They have all helped and supported hundreds of pupils during their time at Sant Curig and as a school we would like to thank them for all they have done!*

*We'd also like to thank **Mrs Rebecca Warner** for her time with us at Sant Curig!*



Edrychwn ymlaen at groesawu **Miss L Flowers, Miss N Tudor a Miss B Price** i'n Teulu Curig!

*We look forward to welcoming **Miss L Flowers, Miss N Tudor and Miss B Price** to our Sant Curig family!*

# Blwyddyn 2

Rydyn ni wedi mwynhau gweithgareddau ein thema y tymor hwn yn fawr iawn. Rydyn ni wedi bod yn meddwl am 'Sut gallwn ni gadw'n byd yn fendigedig?'. Dechreuwyd y tymor gan gynnal arbrawf wyddonol oedd yn dangos sut mae'n gweithredoedd yn gallu achosi cynhesu byd eang, ac yn benodol, ei effaith ar eirth gwyn yn yr Artig.

*We have really enjoyed our theme activities this term. We have been thinking about 'How can we keep our world wonderful?'. The term began with a scientific experiment that showed how our actions can contribute towards causing global warming, and specifically, its effect on polar bears in the Arctic.*

Roedd gan y plant syniadau arbennig am bethau gellir eu gwneud yn wahanol er mwyn helpu'r amgylchedd e.e. ailgylchu ac ail-ddefnyddio. Fe ddatblygon ni'n gallu i weld y ddwy ochr o ddadl.

*The children had brilliant ideas about things that can be done differently to help the environment e.g. recycle and reuse. We developed an ability to see both sides of an argument.*

Yn ogsytal â hyn, fe ddysgon ni am bwysigrwydd planhigion ar y byd. Fe ddysgon ni am gylch bywyd planhigyn a profi hyn ein hun wrth blannu hadau a'u gwylio'n tyfu.

*In addition to this, we learned about the importance of plants. We learned about the life cycle of a plant and experienced this ourselves when planting seeds and watching them grow.*

Dysgon ni sut y gallwn ni leihau ein ôl-troed carbon wrth greu jam ein hun gan ddefnyddio cynnyrch rydym wedi tyfu ein hunain. Roedd hi'n bwysig mesur popeth yn gywir!

*We learned how we can reduce our carbon footprint when creating our own jam using products grown in our garden. It was important to measure everything correctly!*

Rydym ni wedi bod yn gweithio'n galed yn datblygu ein sgiliau mathemateg. Dyma ni'n creu oriawr ac yn ymarfer darllen cloc.

*We have been working hard developing our maths skills. Here we create a watch and practicing reading a clock.*

A wyddoch chi ein bod ni wedi bod yn defnyddio'n dychymyg y tymor hwn? Trwy greu sioe pypedau, ffilm allan o does a chreu map stori, rydyn ni wedi datblygu ein sgiliau dweud stori. Roedd ein gwaith ysgrifenedig yn arbennig, o ganlyniad!

*Did you know that we have been using our imagination this term? By creating a puppet show, a film out of dough and creating a story map, we have developed our storytelling skills. Our written work was fantastic, as a result!*

Ein hoff ddiwrnodau y tymor hwn oedd pan wnaethoch chi, ein teulu, ymuno gyda ni yn yr ysgol. Roedd y diwrnod Dewis Dysgu yn wych, a'r Mabolgampau yn gyfle hyfryd i arddangos yr hyn rydyn ni wedi bod yn ei wneud yn ein sesiynau ymarfer corff.

*Our favorite days this term were when you, our family, joined us at school. The Learning Choice day was fantastic, and the Sports Day was a wonderful opportunity to showcase what we have been doing in our exercise sessions.*

Dymunwn pob dymuniad da i bawb ym mlwyddyn 3. Byddwn ni'n gweld eich eisiau'n fawr iawn! Diolch i chi gyd am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a mwynhewch yr haf!

*We wish everyone the best in year 3. We will miss you very much! Thank you all for your support during the year and enjoy the summer!*






















# Blwyddyn 6



Mae'r tymor olaf wedi hedfan heibio i ni ym Mlwyddyn 6! Ein thema y tymor hwn oedd cynaliadwyedd lle gwnaethom ddadansoddi'r cwestiwn mawr, 'sut mae ein gweithredoedd yn effeithio ar ein byd bendigedig?'. Yma, gwnaethom ddatblygu dealltwriaeth dda o sut y gall gweithredoedd pobl, gan gynnwys ein gweithredoedd ni, wella neu niweidio'r amgylchedd. Buom yn ymchwilio i ddadleuon o blaid ac yn erbyn datgoedwigo, gan ysgrifennu araith bwerus fel aelod o'r llwyth Awa. Dysgom am newid yn yr hinsawdd, ôl troed carbon a sut y gall hyn effeithio ar yr anifeiliaid gwyllt a'n hardal leol. Buom yn astudio llwythi Brasil a sut y bu'n rhaid iddynt addasu i fyd sy'n newid. Gan ganolbwyntio ar ein hardal leol, mi wnaethom gasglu sbwriel a phlastig o gwmpas ein hysgol er mwyn creu darn o gelf a oedd yn adlewyrchu effeithiau y byd megis datgoedwigo, cynhesu byd eang, a phlastig yn y môr. Hyfryd oedd cael gwahodd rhieni i'n Galeri Celf ble cafodd y disgyblion y cyfle i ddangos eu gwaith arbennig. Rydym wedi astudio Sir David Attenborough a'r effaith mae wedi cael ar ein byd. Gwylion ei raglenni am natur, y môr, a'r blaned gan astudio'r criw ffilm, er mwyn creu ffilm fer ein hunain. Aeth y disgyblion wedyn i greu ffilm ei hun am yr effaith o beidio ailgylchu neu daflu sbwriel. Defnyddiodd y disgyblion eu gwybodaeth o sut i greu ffilm effeithiol gan edrych ar sain, camera, lleoliad, cymeriadau, lliwiau a'r stori. Cawsom hwyl yn ein Mabolgampau olaf. Buom yn gweithio fel tîm, yn annog eraill, ac ymarfer sgiliau. Buom yn rhan o weithdy Crucial Crew a chawsom weithdai gwych gyda PC Mirain Davies. Cawsom hwyl yn ymarfer a pherfformio ein gwasanaeth olaf erioed. Braf fydd cael y cyfle i ddiolch a ffarwelio â holl staff a disgyblion yr ysgol. Byddwn yn gweld eisiau Ysgol Gymraeg Sant Curig yn fawr ond rydym yn edrych ymlaen at y bennod nesaf yn ein bywydau. Diolch a hwyl fawr i chi gyd.

*This final term has flown by for us in Blwyddyn 6! Our theme this term was sustainability where we analysed the big question, 'how do our actions effect our wonderful world?'. Here, we developed a good understanding of how people's actions, including our own, can improve or damage the environment. We researched arguments in favour and against deforestation, which helped us write our powerful speeches. We learnt about climate change, carbon footprints and how this can affect our local area and wildlife. We studied Brazilian tribes and how they have had to adapt to a changing world. Focusing on our local area, we collected plastic and rubbish on our school grounds which we then used to create our pieces of art which reflected the problems the world faces today such as deforestation, climate change, and plastic in the ocean. We thoroughly enjoyed inviting the parents in to see our Art Gallery. We also studied Sir David Attenborough and the positive effect he's had on our planet. Whilst watching his programmes about nature, the sea, and our planet, we studied the film crew to create a short film ourselves. The pupils then created a short film about the effects of not recycling and throwing rubbish. They used their knowledge of sound, camera, location, characters, colours and the story. We had fun in our final sports day. We worked as a team, encouraging others, practicing skills and we all had fun in doing so! We attended a Crucial Crew event and had some fantastic workshops with PC Mirain Davies. We have enjoyed rehearsing for our final ever assembly.  It will be great to have the chance to thank and bid farewell to all the staff and pupils here at Ysgol Gymraeg Sant Curig.  We will miss Sant Curig very much but we are looking forward to the next chapter in our lives. Thank you and goodbye.*
















# Siarter Iaith / Welsh Language Charter



Ein ffocws yn nhymor 3 oedd cael ein plant i werthfawrogi ac ymfalchïo mwy yn eu gallu gyda'r iaith.
Yn dilyn cyflwyniad gan Mr Jones ar ddechrau'r tymor mae'r plant wedi ymateb yn wych ac fe welir hyn drwy'r cynnydd mawr yn y nifer o gownteri Cymreictod sydd wedi ei rhoi yn ystod y tymor o gymharu ag tymhorau blaenorol. O ganlyniad bu rhaid i'r ysgol archebu mwy o gownteri gan fod stoc mor isel sydd yn glod i ymdrechion yr holl blant .
Cawn glywed pa lys fydd yn fuddugol yn fuan!

Cynhalwyr yr Eisteddfodau Ysgol hefyd ac roedd yn grêt i weld gymaint o blant yn perfformio ei sgiliau adrodd , canu, dawns neu gerddorol gan gofio holl waith yn y dosbarthiadau. Llongyfarchiadau i bawb eleni.

*Our focus this term was to remind the children of their language and to appreciate and celebrate their ability to speak Welsh.*
*Mr Jones made a presentation to the school at the beginning of the term and the results have been amazing as we have seen a big increase in the number of counters given compared with previous terms. As a result, the school has had to order new stock of counters to keep up with the demand which is a great reflection on all the pupils' efforts.*
*We will find out soon which House has achieved to collect the most counters!*

*We also held our own multi-year School Eisteddfods and was so great to see talented pupils perform via song, recital, dance, music and not forgetting all the class competitions. Congratulations to all this year.*















Braf iawn oedd rhannu cwmni'r flwyddyn yn ystod y tymor hyfryd yma. 'Beth sydd tu hwnt i'n byd?' oedd ein thema ar gyfer y tymor ac mae'r disgyblion wedi bod wrth eu boddau yn astudio gwahanol agweddau o'r gofod. Dysgom llawer am blanedau Cysawd yr Haul, anturiaeth Neil Armstrong ac Apollo 11 a thrafod 'ydy teithio i'r gofod yn ddi-angen?'. Yn ogystal â hyn, mae Blwyddyn 5 wedi bod yn mwynhau dathlu diwrnod Gwyddonaieth, lle cawsom y cyfle i wneud amrywiaeth o arbrofion a gwisgo fyny am y diwrnod – roeddynt i gyd yn edrych yn WYCH! Dysgom llawer am rymoedd yn ein arbrawf crateri ac roedd yn wych i weld y plant yn datblygu eu sgiliau Gwyddonol. Gwelwyd hefyd talentau celf y plant wrth iddynt greu planedau eu hunain. Mae Blwyddyn 5 wedi mwynhau paratoi a chymryd rhan yn ein mabolgampau ym mharc Jenner. Llwyddodd pawb i ymdrechu'n wych! Cawsom brofiad anhygoel yn ymweliad y 'WonderDome' i'r Ysgol, gan weld y bydysawd o fewn planedariwm chwyddadwy! I ddathlu flwyddyn arbennig, aethom ar ein trip olaf i Buzz! Diolch am eich holl waith called Blwyddyn 5 – mwynhewch eich Hâf!

# Blwyddyn 5









It was very nice to share the company of Year 5 during this lovely term. 'What's beyond our world?' was our topic and the pupils have enjoyed studying various aspects of Space during the term. We learned a lot about the planets and the Solar System, Neil Armstrong and Apollo 11 and discussed 'Is Space travel necessary?'. As well as this, Year 5 have enjoyed celebrating Mad Science Day where they had the opportunity to take part in various Science experiments and dress up – they all looked fantastic! We learned a lot about forces in our crater experiment and it was great to see the children develop their Science skills. We witnessed their artistic skills when they created their own planets using paper lanterns. Year 5 enjoyed preparing and taking part in the school Sports Day which was held at Jenner Park. Everyone put in a great effort! We had an amazing experience in the 'WonderDome' which visited the school. The pupils were able to see the universe within an inflatable planetarium! To celebrate an amazing year, we went on our final trip to Buzz! Thank you for all your hard work Year 5 – enjoy your Summer!





Wel dyma ni ar ddiwedd flwyddyn gyntaf eich plant yn yr Ysgol. Rydym wedi cael flwyddyn lwyddiannus, llawn hwyl a sbri. Rydyn ni wedi dysgu amdanaf i fy hun, am Gymru a sut i edrych ar ôl ein byd. Fel staff y Meithrin rydyn ni eisiau diolch i chi gyd am eich cefnogaeth a dymuno pob lwc i'r plant am eu siwrnai nesaf wrth iddynt dyfu ar eu taith yn Sant Curig.

*Well, here we are at the end of your children's first year in school. We've had a very successful, busy year learning about who we are, about Wales and how we can look after the world around us. All the staff in the Nursery would like to thank you all for your support and we wish the children all the luck as they transition up to Reception continuing to grow and develop on their journey through Sant Curig.*










# Meithrin 2022 - 2023











# Sêr y Tymor

| CYMREICTOD | YMDRECH | CYFEILLGARWCH |
| --- | --- | --- |
| *Derbyn - Aurora MJ a Kellan V* | *Derbyn - Ava Z a Harper-Rose J* | *Derbyn - Orlando D a Josefine WA* |
| *1 - Lloyd G ac Alice H* | *1 - Geraint TO a Jayden R* | *1 - Archie T, Fraser J ac Isla-May W* |
| *2 - Abigail W a Lily C* | *2 - Eva L a Hollie D* | *2 - Mya L ac Isabelle B* |
| *3 - Chloe M a Layla-Louise I* | *3 - Corey D a Carmela M* | *3 - Che W a James D* |
| *4 - Anabella R ac Elis R* | *4 - Louie J ac Elsie R* | *4 - Isabella T ac Astrid P* |
| *5 - Corey L  ac Emily Mc* | *5 - Rhys B a William R* | *5 - George Mc a Gracie R* |
| *6 - Gracie L ac Elin G* | *6 - Amelia S a Lily E* | *6 - Oshan M a Mollie V* |

# Disgyblion y Flwyddyn!

**Dosbarthiadau'r Derbyn**

*Nancy B a Cleo D*

**Blwyddyn 1**

*Chaplin S ac Isla W*

**Blwyddyn 2**

*Iestyn G ac Eden E*

**Blwyddyn 3**

*Keeleigh B a Thomas H*

**Blwyddyn 4**

*Felicity T a Sophie W*

**Blwyddyn 5**

*Delyth S a Lili-Bo S*

**Blwyddyn 6**

*Tirion W a Mason K*

# Blwyddyn 1




Dyma ni ar ddiwedd ein tymor olaf ym Mlwyddyn 1. Mae'r tymor wedi bod yn un prysur ac yn llawn hwyl a sbri. Cawsom lawer o hwyl yn dysgu am y gofod ac roedd pawb wedi mwynhau ymweliad y 'WonderDome' i'r ysgol. Roedd pawb wedi mwynhau dylunio bygi ofod yn ogystal â threfnu planedau, dysgu ffeithiau am gysawd yr haul a gwneud ioga'r gofod. Cynhaliom ein gwasanaeth cyntaf i rieni ac am berfformiad! Braf oedd gweld pawb yn cynrychioli ei llys a pherfformio ar lwyfan yn ystod Eisteddfod yr ysgol. Da iawn i chi gyd! Datblygom fel unigolion iach a hyderus wrth gymryd rhan yn ein mabolgampau a gweithdy Rhiannon Henry. Rydym hefyd wedi coreograffi dawns y gofod yn ein grwpiau. Am blant mentrus a chreadigol, yn ystod pythefnos ffilm bu'r plant yn gwrando ar sain ffilm, arbrofi gydag offerynnau er mwyn creu effeithiau sain, cynllunio a recordio ffilm fesul grŵp. Mae hi wedi bod yn flwyddyn brysur llawn hwyl a sbri ac rydym wedi mwynhau pob munud ym Mlwyddyn 1. Mwynhewch wyliau'r haf a diolch am y gefnogaeth yn ystod y flwyddyn.













*Here we are at the end of a very busy Summer term. We have had lots of fun learning about Space in class and we especially enjoyed our visit from the 'Wonderdome'. Everyone enjoyed designing and building a space buggy as well as sequencing the planets, learning facts about space and practising their space themed yoga poses. We held our first assembly for parents and what a performance! It was wonderful to see so many children representing their house team by performing on the stage during our school Eisteddfod. Da iawn i chi gyd! We developed as healthy and confident individuals by taking part in our schools sports day along with Rhiannon Henry's workshop. We also choreographed a Space themed dance within our groups. The children had a blast! During our fortnight of film the children listened to the sounds of a film, experimented with instruments to create sound effects and planned and recorded their own film within small groups. We have such creative children! It has been a busy and we have enjoyed every minute. We thank you for all your support and we hope you have a lovely summer break.*

# Blwyddyn 4



Am dymor cyffrous cawsom ym mlwyddyn 4! Wrth astudio ein thema "Cymru a thu hwnt" ehangom ein gorwelion daearyddol a diwylliannol, trwy ddysgu am wahanol wyliau, bwydydd, ieithoedd a thirnodau Cymru, Ffrainc, Yr Eidal, Mecsico ac India.

*What an exciting term we had in year 4! When studying our theme "Wales and beyond" we broadened our geographical and cultural horizons, by learning about different festivals, foods, languages and landmarks of Wales, France, Italy, Mexico, and India.*










Cawsom gyfle i ymchwilio ag ysgrifennu pamffledi deniadol a gwybodus am Ffrainc, creu pinata ein hunain wrth astudio Mecsico, adeiladu tirnodau Rhufeinig allan o basta a marshmallows, cyn gorffen gyda chreu hysbyseb ein hun yn denu teithwyr i ymweld ag India!

*We had the opportunity to research and write attractive and informative brochures about France, create our own piñata while studying Mexico, build Roman landmarks out of pasta and marshmallows, before finishing with creating our own advertisement attracting travellers to visit India!*





Buom yn yr ardd wyllt hefyd yn datblygu plannu tomatos a blodau'r haul cyn edrych o gwmpas y pwll am frogaod a phenbyliaid.
Diolch yn fawr i Mrs Osborne am ein dysgu a'n hysbrydoli!

*We were also in the wild garden planting tomatoes and sunflowers before looking around the pond for frogs and tadpoles. Many thanks to Mrs Osborne for teaching and inspiring us!*

Yn ogystal â hyn cawsom gyfle i ddangos ein doniau athletaidd yn ein mabolgampau o flaen torf fawr o rieni ar ddiwrnod braf, cystadleuol a hwylus. Gorffennom ein tymor gyda phythefnos o wersi nofio. Hyfryd oedd gweld y disgyblion yn ymdrechu'n ddewr i ddatblygu eu sgiliau nofio. Diolch am dymor a blwyddyn ardderchog, blwyddyn 4!



*In addition to this we had the opportunity to show our athletic talents in our sports in front of a large crowd of parents on a nice, competitive, and fun day. We finished our term with two weeks of swimming lessons. It was wonderful to see the pupils trying bravely to develop their swimming skills.*

*Thanks for a great term and year, year 4!*